## Cyflawnder yr Iachawdwriaeth

Cyflawnder yr Iachawdwriaeth
Hyfryd lais efengyl hedd
Sydd yn galw pawb i'r wledd:
Mae gwahoddiad llawn at Grist;
Oes, i'r tlawd, newynog, trist.
Pob cyfiawnder ynddo cewch;
Dewch â chroeso, dlodion, dewch.

Cyfod, haul cyfiawnder llon:
Dyrcha dros y ddaear hon;
Aed dy belydr i bob gwlad,
Yn dy esgyll dwg iachâd:
Dos ar gynnydd, nefol ddydd;
Doed y caethion oll yn rhydd.

Talodd Crist anfeidrol Iawn
Ar y croesbren un prynhawn;
Llifodd ar Galfaria fryn
Ddŵr a gwaed i'n golchi'n wyn:
Iachawdwriaeth sydd heb drai;
Dewch i'r ffynnon, aflan rai.

Iesu gaiff y clod i gyd;
Ymaith dug bechodau'r byd:
Rhoes ei hunan yn ein lle –
Bellach beth na rydd efe?
Haleliwia! llawenhewch;
Dewch, moliennwch, byth na thewch.

***Pedr Fardd***